**TEMPLED AR GYFER ATEBION YMGYNGHORIAD**

## Manylion yr Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Y ddogfen sy'n destun i'r ymgynghoriad:** | YMGYNGHORI AR GYFARWYDDIADAU POLISI NEWYDD Y GRONFA LOTERI FAWR |
| **Dyddiad cau:** | 17 Mehefin 2013 |
| **Atebion i'w hanfon at:** | David.rowlands@biglotteryfund.org.uk |
| **Cwestiynau at:** | David.rowlands@biglotteryfund.org.uk |

## Eich manylion

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Ceri Davies |
| **Swydd:** | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio |
| **Sefydliad:** | Cyfoeth Naturiol Cymru |

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1:** Oes unrhyw beth yn y cyfarwyddiadau na ddylai'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru fod yn ei wneud? Os mai'ch ateb yw oes, dywedwch wrthym beth ydyw a pham na ddylen nhw fod yn ei wneud. (uchafswm o **200 gair**)

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gefnogol iawn o'r trydydd sector ac yn cydnabod rôl hanfodol y sector wrth gyflawni canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Serch hynny, **nid ydym yn cytuno y dylai'r gronfa gael ei thargedu'n bennaf at brosiectau a gyflawnir gan y trydydd sector.** Am resymau gallu a medr, gall prosiectau aml-bartner gael eu harwain gan sefydliadau nad ydynt yn y trydydd sector. Yn yr un modd, gall prosiectau sy'n cael eu cyflawni gan sefydliadau nad ydynt yn y trydydd sector gyflawni i'r un buddiolwyr â'r rhai sy'n cael eu harwain gan sefydliadau'r trydydd sector. Gallu a medr yr ymgeisydd i gyflawni'r prosiect, y sawl sy'n cael budd o'r gronfa yn y pen draw ac allbynnau a chanlyniadau hirdymor y prosiect – dyna yw'r ffactorau ddylai fod yn bwysig.

Nid oes gan CNC sylw pellach i'w wneud ar y cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 2:** A ddylai'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru fod yn gwneud unrhyw beth yn ychwanegol at y cyfarwyddiadau hyn? Os mai dylai yw eich ateb, dywedwch wrthym beth y dylent ei wneud a pham. (uchafswm o **200 gair**)

Mae CNC yn croesawu cynnwys canlyniad sy'n canolbwyntio'n benodol ar yr amgylchedd yng nghyfarwyddiadau drafft y Gronfa Loteri Fawr. Mae amgylcheddau gwydn a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru yn feysydd gwaith allweddol i CNC. Mae CNC hefyd yn croesawu bod cydnabyddiaeth i'r angen i sicrhau y bydd cyllid yn gwella amgylchedd Cymru. Serch hynny, **byddai'n well gennym pe bai 'H' yn dweud 'lleihau effaith negyddol a hybu effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd'.**

Er mwyn i'r Gronfa Loteri Fawr gyflawni egwyddor Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, rhaid i **bob** prosiect sy'n cael ei ariannu gyflawni atebion cynaliadwy. Bydd CNC yn defnyddio'r dull sy'n seiliedig ar yr ecosystem i lywio gwaith yn y dyfodol, gan reoli adnoddau naturiol Cymru nid yn unig i ychwanegu at iechyd yr amgylchedd, ond hefyd i ddarparu gwell buddiannau i gymdeithas ac i fusnes. **Gall y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru ddefnyddio'r dull cyfannol hwn fel fframwaith ar gyfer ariannu'r gronfa yn y dyfodol, gan ofyn i bob prosiect gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.**

Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i **weithio gyda'r Gronfa Loteri Fawr i drafod cymorth posib i ymgeiswyr ac i roi cyngor ar sicrhau'r canlyniadau datblygu cynaliadwy gorau i'r gronfa.** Byddai CNC hefyd yn barod i helpu **yn y broses o asesu prosiectau.**